# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

## TRWYDDED CERBYD HACNI

## AMODAU'R DRWYDDED

## 1 MANYLEB Y CERBYD

Rhaid i'r ymgeisydd fodloni'r Cyngor fod:

-

**1.1** y cerbyd yn cael ei yrru ar yr ochr dde gydag o leiaf pedwar drws, ac eithrio cerbyd wyth sedd o fath bws mini, a ddylai gael o leiaf tri drws, a dylai dau ohonynt fod at ddefnydd teithwyr yn unig. Yn achos cerbyd cefn codi ni chaiff y drws hwnnw gael ei ystyried na'i gyfrif fel drws ar gyfer mynd i mewn ac allan o'r cerbyd;

1.2 digon o seddi i gludo o leiaf pedwar a dim mwy nag wyth teithiwr yn ychwanegol at y gyrrwr. Caiff y seddi eu pennu gan Archwiliwr Cymeradwyo'r Cyngor

1.3 wedi ei adeiladu a'i gynnal fel ei fod yn ddiogel a chyfforddus a rhaid bod y drysau'n agor yn ddigon llydan i alluogi mynd i mewn ac allan o'r cerbyd yn hawdd heb beri anghyfleustra i deithwyr

1.4 bydd cerbyd yn cael ei gyflwyno ar gyfer trwyddedu i gludo mwy na phedwar teithiwr, y mae un ai wedi ei ffurfio o ran strwythur neu ei addasu'n barhaol i fodloni'r Adran Drafnidiaeth a bod tystysgrif i'r perwyl hynny wedi ei dderbyn

Noder: rhoddir gofynion ar gyfer cerbydau i gludo'r anabl o dan Adran 6 isod:

1.5 y mae o fath addas, maint a dyluniad addas a rhaid i bob cerbyd ac eithrio cerbyd o'r fath bws mini gydsynio â'r canlynol heb addasu manylebau'r gwneuthurwr

Uchder

Rhaid iddo fod yn ddim llai na 32 modfedd (80cm) o dop clustogau'r sedd (heb wasgu) ar y rhan isaf hyd at y to ar y rhan isaf.

Gwagle Pen-lin

Rhaid i fesuriad rhwng cefn y seddi blaen a sgwab y sedd gefn fod dim llai na 27 modfedd (67.5cm). Os yw'r seddi blaen yn gallu cael eu haddasu, dylai'r mesuriad gael ei wneud o'r safle canolog.

Seddi (lled)

Rhaid i led y sedd gefn o'r sgwab hyd at yr ymyl blaen fod dim llai na 16 modfedd (40cm).

Ni fydd yr amod hwn yn gymwys i seddi sy'n wynebu'r cefn mewn cerbydau a wnaed i bwrpas ac a gafodd eu cymeradwyo gan y Cyngor.

Sedd gefn (panel o ddrws i ddrws)

Rhaid i'r pellter rhwng paneli mewnol y ddau ddrws cefn, a fesurir mewn llinell syth ar ei hyd o'r rhan letaf beidio â bod yn llai nag i ganiatáu 16 modfedd (40cm) o wagle eistedd i bob teithiwr.

**2** DARPARIAETHAU O RAN SUT Y CAIFF Y CERBYD HACNI EI DDODREFNU NEU EI DDARPARU:

2.1 Dylai mesurydd tacsi fod wedi ei ddarparu a'i gynhyrchu, ei atodi a'i gynnal yn y fath fodd, fel ei fod yn cydsynio â'r gofynion canlynol, sef -

2.2 Ni fydd y mesurydd tacsi yn dechrau gweithredu nes fod taith y sawl sy'n ei logi wedi dechrau.

2.3 Cyn llogi, ni chaiff unrhyw bris ei nodi ar wyneb y mesurydd.

2.4 Rhaid i'r mesurydd tacsi gael ei raglennu gyda'r **tariff cyfredol** yn ôl yr hyn a gymeradwywyd gan y Cyngor, a phan fydd y mesurydd tacsi yn gweithredu caiff recordiad o'r pris ei arddangos ar wyneb y mesurydd mewn ffigurau clir a darllenadwy, sef pris nad yw'n fwy na phris y mae'r perchennog neu'r gyrrwr wedi ei awdurdodi i'w godi.

2.5 Bydd y mesurydd tacsi yn cael ei ffitio gydag allwedd, baner neu ddyfais arall ac wrth ei droi bydd hynny'n dechrau gweithrediad y mesurydd tacsi a pheri bod y gair "HIRED" yn ymddangos ar wyneb y mesurydd tacsi;

2.6 bydd yr allwedd, baner neu ddyfais arall dan sylw yn gallu cael ei gloi i'r fath safle fel nad yw mecanwaith y mesurydd tacsi yn gweithredu ac nad oes pris yn cael ei recordio ar wyneb y mesurydd tacsi;

2.7 pan fydd mecanwaith y mesurydd tacsi yn gweithredu caiff pris ei recordio ar wyneb y mesurydd tacsi mewn ffigurau clir a darllenadwy, nad yw'n fwy na chyfradd na phris y mae hawl gan y perchennog neu'r gyrrwr ofyn amdano am logi'r cerbyd yn ôl yr amser yn ogystal â phellter o ganlyniad i'r tariff y mae'r Cyngor wedi ei osod.

2.8 Caiff y gair "FARE" ei brintio ar wyneb y mesurydd tacsi mewn llythrennau plaen sydd yn glir yn gymwys i'r pris a gaiff ei recordio arno.

2.9 Caiff y mesurydd tacsi ei osod yn y fath le fel bod yr holl lythrennau a ffigurau ar ei wyneb yn glir a gweladwy ar bob adeg i unrhyw berson sy'n cael ei gludo yn y cerbyd, ac i'r perwyl hwnnw, bydd y llythrennau a'r ffigurau yn gallu cael eu goleuo'n briodol yn ystod unrhyw gyfnod o'r llogi, a;

2.10 Bydd y mesurydd tacsi a'r holl ffitins iddo wedi cael eu gosod i'r cerbyd yn y fath fodd gyda seliau neu offer arall fel na fydd yn ymarferol i unrhyw berson ymhél â nhw oni bai bod hynny yn sgil torri, difrodi neu ddadleoli'r seliau neu offer arall yn barhaol

2.11 Rhaid i'r cerbyd gario offer diffodd tân yn y fath safle fel ag y bydd ar gael yn hawdd i'w ddefnyddio ac o leiaf 1.0 kg o bowdr sych sy'n bodloni gofynion Safonau Ewropeaidd BS EN3: 1996, rhaid gosod y fath ddiffoddwr yn y cerbyd yn y fath safle fel ag y bydd ar gael i'w ddefnyddio ac yn gweithio'n dda ar bob achlysur

2.12 Gellir cario unrhyw offer a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Cyngor hyd nes ei ddyddiad dod i ben neu hyd nes y canfyddir nad oes modd rhoi gwasanaeth oherwydd ei gyflwr. Ar ôl defnyddio offer, rhaid ei adnewyddu ar unwaith.

2.13 Caiff cit cymorth cyntaf sy'n cydsynio â Safon Brydeinig BS85599-2 ei gario yn y cerbyd yn y fath le fel ag y bydd yn weledol amlwg ac ar gael i'w ddefnyddio ar unwaith mewn argyfwng.

Mae'n bosibl y bydd gyrwyr yn atebol os byddant yn cyflawni cymorth cyntaf ar eraill. Yn unol â hynny os ydyn nhw am wneud hynny, rhaid iddyn nhw sicrhau eu bod yn ddeiliad cymhwyster cydnabyddedig a'u bod yn ddeiliad yswiriant addas.

2.14 Dylid arddangos arwyddion Dim Ysmygu yn y cerbyd

2.15 Golau mewnol yn gweithio un ai'n awtomatig wrth agor drysau cefn neu drwy swits ar wahân a leolir wrth ymyl y gyrrwr.

2.16 Adran wedi ei goleuo ar gyfer bagiau.

2.17 Modd i unrhyw berson yn y cerbyd gyfathrebu'n ddigonol a boddhaol gyda'r gyrrwr.
.

2.18 Gwregysau diogelwch yn y seddi blaen a'r seddi cefn i ddiogelu'r nifer o deithwyr y mae'r cerbyd yn caniatáu eu cludo.

2.19 Os yw'r cerbyd yn gar stad dylai ei fod wedi ei ffitio gyda gril sy'n ddigon sylweddol i atal y bagiau yn yr adran gefn rhag symud i fod mewn cysylltiad â'r personau yn y sedd gefn.

2.20 Dim ond gyda chaniatâd llogwr y cerbyd y gall unrhyw offer clywedol sydd wedi ei osod yn y cerbyd gael ei ddefnyddio. Wrth ei weithredu, ni fydd yr allyriadau sain o'r offer clyweled yn peri aflonyddwch i bersonau eraill oherwydd ei fod yn uchel a pharhaus ac ailadroddus.

2.21 oes yna / wedi bod unrhyw addasu i ddyluniad y cerbyd boed i'r peirianwaith neu'r corff, rhaid rhoi gwybod am hynny i'r Cyngor gan y gall fod yn ofynnol i'r perchennog gyflwyno'r cerbyd am archwiliad pellach.

**Noder: mae gofynion ar gyfer cerbydau ar gyfer cludo'r anabl ar gael o dan Adran 6 isod -**

## 3 <u>MAE GOFYNION ANSTATUDOL AR GYFER CERBYDAU LLOGI PREIFAT A OSODIR GAN Y CYNGOR FEL A GANLYN:-</u>

<u>Cragen corff y car</u>

Yn cynnwys drysau, paneli, adenydd, bymperi, ardal y llawr mewnol i fod mewn cyflwr da, yn rhydd o rwd, tyllau, metel toredig neu unrhyw ddifrod gweledol arall o ran deunydd.

<u>Gorchudd Seddi</u>

I fod mewn cyflwr da, yn lân ac yn rhydd rhag unrhyw rwygiadau i'r defnydd, difrod, saim neu lygredd arall i'r defnydd.

Gorchudd Llawr

I fod mewn cyflwr da, yn lân ac yn rhydd rhag unrhyw lygredd i unrhyw ddefnydd.

Trim Mewnol

I fod mewn cyflwr da, yn lân a'r defnydd yn rhydd rhag unrhyw rwygiadau, difrod, saim neu unrhyw lygredd arall i'r defnydd.

Colfachau Drws

Gweithio'n dda, pob un yn gweithio, a'r drysau wedi eu selio'n iawn ar ôl eu cau.

Sgrin wynt a Ffenestri

I fod mewn cyflwr da a glân ac yn rhydd rhag difrod.

Ffenestri Ochr a'u dolenni

Mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn.

Diffoddwr Tân, Olwyn Sbâr, Brês a Jac

I fod mewn cyflwr da ac i'w gario mewn safle hawdd cyrraedd atynt ym mhob cerbyd sef yn y bŵt neu'r adran dal bagiau.

Bwt neu Adran dal Bagiau

I'w cadw mewn cyflwr glân ac yn wag ac eithrio'r olwyn sbâr, offer hanfodol a'r diffoddwr tân a'r cit cymorth cyntaf. Fel arall fe ddylai fod yn wag er mwyn rhoi lle i fagiau'r teithwyr.

Gollyngiadau Olew

Injan i fod yn rhydd rhag gollyngiadau olew.

Ffitins Mewnol ac Allanol

Dim ffitins nac arwyddion i'w hatodi y tu fewn na thu allan i'r cerbyd oni bai eu bod wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor.

Tanc Tanwydd Nwy Cywasg neu L.P.G.

Am resymau diogelwch, dylai cerbydau sydd wedi eu haddasu i ddefnyddio tanwydd L.P.G. (Liquid Propane Gas) neu Nwy Cenedlaethol Cywasg, yn yr adran dal bagiau gael parth o fetel 6 modfedd (15cm) i 9 modfedd (22 cm) rhwng cefn y cerbyd a'r tanc nwy. Rhaid i'r tanciau gael cynhwysedd ar y mwyaf o ddim mwy na 100 litr a rhaid eu bod wedi eu lleoli rhwng bwâu'r olwyn. Os yw'r tanc yn cael ei ffitio o dan gorff y cerbyd dylai bod 10 modfedd (25 cm) o le clir o dan y tanc pan fo'r crogiant yn gwbl gywasgedig. Bydd yn ofynnol cael tystysgrif a gyflwynwyd gan addaswr a gymeradwywyd, a dim ond ar ôl derbyn cymeradwyaeth ysgrifenedig oddi wrth y Cyngor y gellir ffitio maint mwy o faint. Dylid rhoi prawf i'r tanciau bob chwe mis gan brofwr cymeradwy a dylai tystysgrif archwiliad fod ar gael i swyddog awdurdodedig ar gais.

Mae'r gofynion uchod yn ychwanegol at y safonau gofynnol a osodir gan archwiliad teilyngdod ffordd DFT (Prawf MOT).

Cerbydau math bws mini

(i) Maint y seddi i fod yr un faint â'r rheini a gymeradwyir gan y gwneuthurwr;

(ii) Rhaid bod gwagle mewnol gydag o leiaf 20 troedfedd giwbig.

(iii) Rhaid i gerbydau math bws mini a drwyddedwyd ar ôl 1 Ebrill 2004, gael eu ffitio â gwregys diogelwch ar gyfer pob sedd sy'n wynebu'r blaen a ble y maen nhw wedi eu ffitio rhaid eu bod wedi cael cymeradwyaeth unigol neu o fath y gwneuthurwr.

## 4. **LLIW/ OED**

4.1 Rhaid i liw y cerbyd fod yn ddu ac o dan 4 oed o'r cofrestriad cyntaf / cynhyrchu.

## 5. **CERBYDAU SY'N CLUDO'R ANABL**

5.1 Er budd diogelwch, dylai cerbydau yn y categori hwn fod o'r fath sy'n cael eu cymeradwyo, adeiladu'n bwrpasol, heb eu haddasu nac eu haltro, a rhaid bod eu manylebau yn union yr un peth â phan gafodd y cerbyd ei gynhyrchu yn gyntaf gyda'r holl offer gwreiddiol, a

5.2 Bydd y system diogelu person mewn cadair olwyn yn cynnwys system angori tri phwynt (glin a lletraws). Gall un ai fod yn fewnol â'r offer clymu cadair olwyn neu gael ei ddarparu ar wahân

5.3 Ar gyfer pob gwagle i ddefnyddiwr cadair olwyn, rhaid gosod systemau diogelu annibynnol addas, yn cynnwys webin, ar gyfer y gadair olwyn a'r person yn y gadair olwyn sy'n addas ar gyfer amrywiaeth o feintiau cadeiriau olwyn a phersonau yn y gadair olwyn. Rhaid i'r systemau diogelu gael eu gosod a'u gweithredu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Rhaid i'r system diogelu cadair olwyn gynnwys webin pedwar pwynt neu fod o'r fath sy'n annatod â'r sedd neu'r cefn-orffwys – nid yw clamp ar ei ben ei hun yn dderbyniol.

6. **<u>ADNABOD CERBYD</u>**

6.1 Bydd y perchennog yn sicrhau fod rhif y drwydded wedi ei osod a'i arddangos ar y cerbyd ar bob adeg pan fydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio fel cerbyd llogi preifat, mae'r rhif hwn i'w arddangos ar blât adnabod sy'n cael eu cyflwyno gan y Cyngor.

6.2 Caiff plât adnabod ei osod a'i arddangos ar y tu allan y tu cefn i'r cerbyd – yn union uwch ben y bymper mewn safle nad yw'n cuddio rhif cofrestru'r car. Rhaid i'r manylion arno wynebu am allan yn y fath fodd a lle fel bo'r plât adnabod i'w weld yn glir yn ystod y dydd o'r ffordd y tu cefn i'r cerbyd.

6.3 Caiff plât adnabod ei osod ar ochr y cerbyd sydd agosaf at ffrynt y sgrin wynt yn y fath fodd a lle fel bod y manylion arno yn cael eu harddangos yn y cerbyd i unrhyw deithiwr sy'n cael eu cludo yn y cerbyd a bod y dyddiad y daw'r drwydded i ben i'w weld yn glir o du allan i'r cerbyd.

6.4 Bydd y sticeri drws a ddarperir gan y Cyngor yn cael eu gosod ar ddrysau ochr y gyrrwr a'r teithiwr blaen, gan ddynodi fod y cerbyd wedi ei drwyddedu gan y Cyngor, drwy ddangos rhif y drwydded ar gyfer y cerbyd hwnnw yn ôl fformat a gymeradwyir gan y Cyngor. Ni chaniateir defnyddio dyfeisiadau magnetig.

6.5 Dylai arwydd to fod o leiaf o faint 18" (45.7cm) a dim mwy na 30" (76.2cm) o hyd, ac o leiaf 4" (10.16cm) a dim mwy na 7" (17.78cm) o uchder ac o leiaf 4" (10.16cm) a dim mwy na 7.5" (19.065cm) o ddyfnder. Rhaid i'r arwydd fod yn wyn, ond yn sgil gwahaniaethau o ran canfyddiad gwneuthurwyr caiff peth amrywiaeth ei dderbyn. Rhaid bod yr arwydd wedi ei gynhyrchu allan o ddarn sengl o ddeunydd wedi ei fowldio a bod â digon o gryfder magned(i) i'w osod yn sicr ar y cerbyd. Rhaid i'r arwydd arddangos y gair TACSI/TAXI ar y tu blaen. Caiff cerbydau tacsi a gynhyrchwyd i'r pwrpas sydd ag arwyddion yn rhan o'u gwneuthuriad eu derbyn hefyd. Bydd golau to sydd wedi eu caniatáu hyd yma yn parhau i gael eu caniatáu i'w defnyddio.

6.6 Bydd yr arwydd to goleuedig wedi ei gysylltu drwy weiar at y mesurydd tacsi er mwyn ei alluogi i gael ei ddiffodd tra bo'r mesurydd yn gweithredu ac arddangos pris.

6.7 Ar ôl derbyn hysbysiad ysgrifenedig o ataliad y drwydded, caiff y plât/platiau adnabod eu trosglwyddo i Swyddog Awdurdodedig gan y perchennog neu byddant yn cael eu cymryd i ffwrdd gan y Swyddog, ond byddant yn cael eu dychwelyd ar ôl ailsefydlu'r drwydded.

6.7.1 Mae platiau adnabod a sticeri drws yn parhau'n eiddo i'r Cyngor a byddant yn cael eu dychwelyd i'r Cyngor <u>ymhen saith niwrnod</u> ar ôl i'r perchennog wasanaethu rhybudd awdurdodedig i'r Cyngor os nad yw'r perchennog bellach yn ddeiliad trwydded Cerbyd Llogi Preifat gyda'r Cyngor sydd mewn grym mewn perthynas â'r cerbyd.

6.9 At ddibenion yr amod hwn mae "hysbyseb" yn golygu unrhyw air, llythyren, arwydd, hysbysiad, golau, dyfais neu gynrychiolaeth sy'n hysbyseb o ran natur a

6.10 Ni fydd y perchennog yn arddangos nac yn goddef na chaniatáu arddangos yn y cerbyd neu ar y cerbyd unrhyw hysbyseb ac eithrio ei fusnes ei hun. Ni ddylai unrhyw hysbyseb achosi risg diogelwch y ffordd na chynnwys geirio neu graffeg anaddas a allai beri tramgwydd.

6.11 Mae platiau adnabod a sticeri drws yn parhau'n eiddo i'r Cyngor a byddant yn cael eu dychwelyd i'r Cyngor <u>ymhen saith niwrnod</u> ar ôl i'r perchennog wasanaethu rhybudd awdurdodedig i'r Cyngor os nad yw'r perchennog bellach yn ddeiliad trwydded Cerbyd Llogi Preifat gyda'r Cyngor sydd mewn grym mewn perthynas â'r cerbyd.

6.12 Ni fydd Is-baragraffau (6.9) (6.10) a (6.11) amod 6 yn gymwys i:

Unrhyw arwydd neu hysbysiad a arddangosir ar neu o'r cerbyd a ragnodir gan neu o dan unrhyw ymddeddfiad;

## 7. <u>ARCHWILIO, PROFI AC ADDASRWYDD CERBYD</u>

7.1 Rhaid cyflwyno pob cerbyd i'w archwilio pan a ble bynnag fo'r gofyn, a rhaid i hynny gydsynio â'r holl ofynion statudol cyfredol ar gyfer cerbydau ffordd a gyda'r gofynion

anstatudol y mae’r Cyngor yn eu gosod. Mae’r amod hwn ddiragfarn at y pwerau a roddir o dan Adran 68 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

7.2 Bydd M.O.T a phrawf cydsynio yn cael eu cyflawni ar bob cerbyd bob chwe mis gan Orsaf Brofi Enwebedig a gymeradwyir gan y Cyngor. Caiff y ffi prawf priodol ei godi ar gyfer pob archwiliad a bydd yn daladwy i’r Orsaf Profi Enwebedig ble y bydd y prawf yn digwydd.

7.3 Caiff y drwydded hon ei hatal pe byddai’n cerbyd yn methu â chael ei gyflwyno ar gyfer archwiliad cyn neu ar y dyddiad archwiliad a bennir yn y drwydded hon.

7.4 Bydd yr ataliad yn parhau mewn grym nes bod y cerbyd wedi ymgymryd â phrawf boddhaol, neu nes bod trwydded y cerbyd yn dod i ben.

7.5 Bydd y perchennog yn caniatáu i swyddog awdurdodedig o’r Cyngor neu Heddwas i archwilio a phrofi cerbyd ar bob adeg resymol. Os nad yw’r swyddog yn fodlon o ran addasrwydd y cerbyd bydd ef/hi yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i’r perchennog i sicrhau fod y cerbyd ar gael am archwiliad a phrofi pellach mewn lle ac ar adegau rhesymol fel y mae’r hysbysiad yn ei benodi. Os bydd archwiliad neu brofi pellach o’r fath yn ofynnol, caiff y drwydded ei hatal hyd nes yr amser y bydd y swyddog yn fodlon â’r cerbyd. Oni bai nad yw’r swyddog yn fodlon ymhen cyfnod o ddau fis, caiff y drwydded dan sylw ei diddymu.

7.6 Rhaid i gerbyd sydd wedi methu prawf archwilio cerbyd gael ei gyflwyno i’w ail-brofi i’r archwiliwr cerbyd a gymeradwyir ac a benodir gan y Cyngor am y namau a ganfyddwyd ymhen 14 diwrnod o ddyddiad y prawf neu bydd archwiliad llawn pellach o’r cerbyd yn ofynnol.

7.7 Os oes yna / os oes wedi bod unrhyw addasu i ddyluniad y cerbyd boed i’r mecanwaith neu’r corff, caiff hyn ei adrodd yn ôl i’r Cyngor a all ofyn bod y perchennog yn cyflwyno’r cerbyd ar gyfer archwiliad pellach.

## 8. <u>TROSEDDAU, TORCYFRAITH A CHOSBAU</u>

Bydd unrhyw berson sydd:

(a) yn fwriadol rwystro Swyddog Awdurdodedig neu Heddwas sy’n gweithredu o ganlyniad i Ran II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 neu Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd 1874; neu

(b) heb reswm rhesymol yn methu â chydsynio ag unrhyw un o ddarpariaethau’r amodau hyn neu ag unrhyw un o’r gofynion a wnaed yn gywir iddo gan swyddog neu heddwas o’r fath, o ganlyniad i Ran II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 neu Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd 1874; neu

(c) heb reswm rhesymol yn methu â rhoi i swyddog neu heddwas o'r fath unrhyw gymorth neu wybodaeth arall y gallai fod yn ofynnol ganddo ar gyfer perfformio swyddogaethau o ganlyniad i Ran II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 neu Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd 1874.

Yn euog o drosedd, yn bosibl o gael ei erlyn ac yn atebol i gael dirwy.

Deil y Cyngor ar yr hawl i ddiwygio neu ychwanegu at unrhyw un o'r amodau blaenorol a chaiff hysbysiad o hynny ei gyflwyno i bob un sy'n dal trwydded.

Ni fydd unrhyw beth yn yr amodau hyn yn difrïo rhag cyfrifoldeb y Cyngor i ystyried pob achos yn ôl ei haeddiant, a bydd yr amodau hyn yn cael eu dehongli a'u cymhwyso yn unol â hynny. Deil y Cyngor ar yr hawl i hepgor unrhyw un o ofynion yr amodau hyn yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt ei hun.